Newyddion gan Ddiogelwch y Ffyrdd Cymru

" Beth sy'n digwydd ym myd diogelwch ar y ffyrdd?" Hydref 2007 — Rhifyn 6

Yn y Rhifyn Hwn:

• Cynhadledd Diogelwch Ffyrdd Cymru •Gwedd Newydd i Pass Plus Cymru •Arddangosfa symudol newydd •Diwygio Rheolau'r Ffordd Fawr •Beiciau Bach •Diogelu Beicwyr Modur •Road Safety Expo '07 •Technoleg Nissan yn Canfod Gyrwyr sydd wedi bod yn Yfed •Gyrwyr Diyswiriant •Sedd chwyldroadol i blant •Cyngor ynghylch teclynnau Llywio-drwy-Loeren •Yr Wynebau y tu ôl i'r Ffigurau

Cynhadledd Diogelwch Ffyrdd Cymru

Daeth dros 150 o'r rhai sy'n gweithio'n broffesiynol ym maes diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru i Gynhadledd agoriadol Diogelwch Ffyrdd Cymru yng Nghaernarfon ar 17/18 Medi.

Ymhlith y pynciau trafod yr oedd: Gwerthuso'r Cynllun Kerbcraft, Dealltwriaeth Plant o Risg, Diogelwch ar y Ffyrdd yn y Cwricwlwm Cynradd, Persbectif Parafeddyg, a'r Prawf Gyrru: Agenda sy'n Newid.
Un o uchafbwyntiau'r digwyddiad oedd perfformiad o'r cynhyrchiad **'Wasted'** gan Gwmni Theatr Walking Forward.

Gwedd newydd i Pass Plus Cymru

Mae cannoedd o ymwelwyr â'r Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod Genedlaethol wedi cael gwybodaeth am Pass Plus Cymru, sef fersiwn helaethach o Gwrs Pass Plus safonol y DSA yw'r cynllun hwn. Trwyddo, caiff gyrwyr ifanc (sydd rhwng 17 a 25 oed ac yn byw yng Nghymru) wybod am ragor o dechnegau gyrru, ynghyd â llawer 'gair i gall', am ddim ond £20.

Mae cyfres newydd o ddeunyddiau cyhoeddusrwydd wedi'i chynllunio i hybu'r cynllun cenedlaethol cynyddol hwn ac mae'r adnoddau dwyieithog hynny'n cynnwys taflenni, posteri a gwybodaeth ar gardiau o faint cerdyn credyd. Cânt eu dosbarthu gan Hyfforddwyr Gyrru a Gymeradwywyd.

Caiff gwefan www.dragondriver.com, sy'n ategu'r cynllun newydd hwn, ei hailwampio cyn hir i gyd-fynd ag ef.

pass plus cymru

Arddangosfa Symudol Newydd

Mae Uned Diogelwch y Ffyrdd Cyngor Caerdydd wedi cael cerbyd arddangos symudol newydd sy'n pwyso 7.5 tunnell fetrig – y cyntaf o'i fath yng Nghymru.

Yn y cerbyd mae system awyru a chyfleusterau i bobl anabl, ac ar ei du allan mae lluniau o nodweddion lleol yng Nghaerdydd.
Ymhlith yr adnoddau mae efelychydd gyrrwr, tri chyfrifiadur 'sgrin-gyffwrdd', a DVD/fideo sy'n gysylltiedig â sgrin plasma 42-modfedd a seinyddion pwrpasol.
Ar lawr y cerbyd mae defnydd sydd wedi'i gynllunio i efelychu ffordd a phalmentydd ac mae'n fodd i arddangos diogelwch ymarferol i gerddwyr drwy ddefnyddio model o gyfleusterau croesi.
I gael gwybod rhagor, cysylltwch â Dave Evans neu John Goff ar 02920 619907, neu JGoff@caerdydd.gov.uk

Dadlennu Fersiwn Diwygiedig o Reolau'r Ffordd Fawr

Mae'r Gweinidog dros Ddiogelwch ar y Ffyrdd, Jim Fitzpatrick, wedi dadlennu'r fersiwn diwygiedig cyntaf o Reolau'r Ffordd Fawr ers wyth mlynedd. Mae'n cynnwys y rheolau a'r cyngor diweddaraf ynghylch diogelwch ar y ffyrdd ac yn hybu rhagor o gwrteisi a dealltwriaeth ymhlith holl ddefnyddwyr y ffyrdd, yn enwedig ymhlith y rhai mwyaf bregus.

Mae Cod Diogelwch newydd ar gyfer Gyrwyr Newydd wedi'i ychwanegu ato i helpu modurwyr yn ystod eu misoedd cyntaf y tu ôl i'r llyw. Mae'n cynnig cyngor ymarferol fel "Os ydych chi'n cario teithwyr, chi sy'n gyfrifol am eu diogelwch. Peidiwch â gadael iddynt dynnu eich sylw na'ch annog i gymryd risg" a "Peidiwch byth â dangos eich hun na cheisio cystadlu gyda gyrwyr eraill, yn enwedig os ydyn nhw'n gyrru'n wael".

Meddai'r Gweinidog dros Ddiogelwch ar y Ffyrdd, Jim Fitzpatrick:

"Dogfen am oes, ac nid dogfen ar gyfer llwyddo yn eich prawf gyrru yn unig, yw Rheolau'r Ffordd Fawr. Mae'n arf hollbwysig i holl ddefnyddwyr y ffyrdd – yn yrwyr ceir, beicwyr modur, beicwyr, marchogion ceffylau ac yn gerddwyr fel ei gilydd – ac yn gymwys ar hyd eich oes. Cyfrifoldeb pob un ohonon ni yw diogelwch ar y ffyrdd a dylai pawb fod â chopi o'r Rheolau er mwyn diweddaru ei (g)wybodaeth yn gyson.

"Ond fe wyddon ni y gall yr ychydig fisoedd cyntaf ar ôl llwyddo yn eich prawf gyrru fod yn amser peryglus. Oherwydd hynny, mae'r Rheolau diweddaraf yn cynnig cyngor ymarferol ac yn atgoffa gyrwyr newydd o'r rheolau y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw."

Mae'r Rheolau hefyd wedi'u diweddaru i gynnwys y ddeddfwriaeth newydd ynghylch allyriadau cerbydau a smygu mewn cerbydau sy'n fannau gwaith, yn ogystal â rhoi pwerau newydd i stopio/cyfeirio i VOSA a Swyddogion Traffig yr Asiantaeth Priffyrdd. Maen nhw'n cyfeirio at fentrau newydd - fel Lonydd Tawel, Lonydd i Gerbydau sydd â mwy nag un Teithiwr ynddynt, Parthau Cartrefi a Chynlluniau Rheoli Traffig Gweithredol - y dylai pobl wybod amdanyn nhw. Mae'r cyngor presennol wedi'i helaethu ac wedi'i ailwampio er mwyn hybu rhagor o gydweithrediad rhwng defnyddwyr y ffyrdd a hyrwyddo rhagor ar ddiogelwch.

Caiff y Rheolau eu diweddaru'n sylweddol bob 8-10 mlynedd. Ym 1999 y gwnaed hynny ddiwethaf.

I weld y fersiwn diwygiedig o Reolau'r Ffordd Fawr, cliciwch yma

Beiciau Bach

Ni fydd rhieni sydd dan bwysau i brynu beiciau bach bob amser yn sylweddoli y gallan nhw fod yn annog eu plant i dorri'r gyfraith ac yn eu rhoi mewn perygl o gael eu hanafu'n ddifrifol..

Mae RoSPA wedi cynhyrchu taflen frawychus o'r enw **'Mini Bikes, A Guide for Parents and Owners'** i ymladd y diffyg ymwybyddiaeth o'r materion cyfreithiol a'r materion diogelwch ynghylch beiciau bach.

Os ydych chi'n cynghori'r cyhoedd neu'n dosbarthu adnoddau addysgol am ddiogelwch ar y ffyrdd i blant a'u teuluoedd, bydd hwn yn ychwanegiad hollbwysig at eich portffolio.

Rhaid i unrhyw gerbyd sydd â pheiriant ac sy'n cael ei ddefnyddio ar ffordd gyhoeddus gydymffurfio â phob agwedd ar gyfraith traffig ffyrdd, gan gynnwys treth ffordd ac yswiriant. Mae'r daflen hon yn rhoi sylw cynhwysfawr i'r materion hynny ynghyd â chyngor hanfodol ynghylch diogelwch ar y ffordd.

www.rospa.com

Diogelu Beicwyr Modur

Yn ddiweddar, mae BikeGuard, cysylltiad di-dor a osodir ar hyd rhwystr diogelwch ac a gynlluniwyd yn benodol i ddiogelu beicwyr modur, wedi'i osod ar un o'r darnau peryclaf o ffordd yn Lloegr i feicwyr modur.

Highway Care sydd wedi cyflenwi ac wedi gosod yr ymgysylltiad wrth y rhwystr ar yr A537 ym Mharc Cenedlaethol y Peak District. Dewisodd Cyngor Sir Gaer y safle hwnnw'n brif leoliad am fod angen cymryd camau i atal beicwyr modur rhag cael eu hanafu'n ddifrifol yno wrth iddyn nhw daro pyst cynnal y rhwystr diogelwch.

Os bydd beiciwr yn taro'r rhwystr, bydd BikeGuard yn ei ailgyfeirio ar hyd yr wyneb llyfn a di-dor gan ei atal rhag cael ei anafu'n ddifrifol, neu waeth, wrth daro pyst y rhwystr. Mae'r system hon wedi'i chymeradwyo i'w defnyddio ym Mhrydain yn sgil ei chynnwys ar restr yr Asiantaeth Priffyrdd o'r systemau ataliol sydd wedi'u cymeradwyo.

Meddai Jim Gibbins, Uwch-Beiriannydd Diogelwch ar y Ffyrdd i Gyngor Sir Gaer: "I bob pwrpas, bydd grwpiau o feicwyr modur yn defnyddio'r A537 fel 'trac rasio' yn ystod yr haf am ei bod hi'n ffordd eithaf anodd mewn mannau. Er bod beicwyr modur yn llai na 2% o'r traffig yr A537, nhw oedd yn gyfrifol, rhwng 2004 a 2006, am 75% o'r marwolaethau neu'r anafiadau difrifol yn y gwrthdrawiadau ar y ffordd honno. Y gobaith yw bod darparu BikeGuard yno'n mynd i olygu y bydd unrhyw wrthdrawiad a fydd yn cynnwys beiciau modur yn y dyfodol yn llai difrifol."

Cyn gosod Bikeguard

Ar ôl gosod Bikeguard

I gael gwybod rhagor, ewch i wefan Highway Care website

Road Safety Expo '07

Yn Road Safety Expo '07 bydd cynhadledd ac arddangosfa i roi cyfle i weithwyr proffesiynol ym meysydd addysg a hyrwyddo a gorfodi diogelwch ar y ffyrdd gyfarfod a gweithio gyda'r rhai sy'n gyfrifol am ymchwilio, arloesi a dylunio.

Bydd y digwyddiad hefyd yn fan cyfarfod i'r llu cyrff sydd wedi ymrwymo i gyflymu'r gostyngiad yn nifer y rhai sy'n cael eu hanafu neu eu lladd ar y ffyrdd.

Y prif siaradwr yn y digwyddiad hwn, a gynhelir yn Llundain ar 22 Tachwedd, fydd Jim Fitzpatrick, yr Is-Ysgrifennydd Seneddol sy'n gyfrifol am Ddiogelwch ar y Ffyrdd. Mae Rhaglen y Gynhadledd yn canolbwyntio ar ddylanwadu ar Ddiogelwch ar y Ffyrdd heddiw ac yfory.

I gael gwybod rhagor a llogi lle, ewch i:
www.publicationsuk.co.uk

Technoleg Nissan yn canfod gyrwyr sydd wedi bod yn yfed

Mae Nissan wedi datblygu car a all ddweud pryd y bydd gyrrwr sydd wedi bod yn yfed yn cydio yn y llyw – a rhwystro'r cerbyd rhag symud. Mae'n defnyddio cyfuniad o 'drwynau' electronig i arogli'r aer, a chamerâu a chanfodyddion ymddygiad i benderfynu a yw'r gyrrwr yn feddw.

Gall y system wahaniaethau hyd yn oed rhwng anadl y gyrrwr ac anadl teithwyr a all fod wedi bod yn yfed.

Eisoes, bydd yr 'alco-gloeon' sydd wedi'u gosod mewn rhai ceir yn gorfodi'r gyrrwr i chwythu i diwb i roi sampl o'i (h)anadl cyn dechrau gyrru. Ond mae technoleg Nissan yn wahanol am nad yw'n gofyn i'r gyrrwr wneud dim. Yn hytrach, caiff modurwyr eu monitro o'r eiliad yr eisteddan nhw y tu ôl i'r llyw. Bydd synhwyrydd arogl alcohol yn gwirio'r anadl tra bo un arall yn gwneud prawf am alcohol yn chwys cledr y llaw sy'n cydio yn lifer y gêr.

Bydd camera bach bach ar y dasfwrdd yn monitro symudiadau wyneb a llygaid y gyrrwr ac yn canfod a yw'n ffit i yrru drwy fesur cyfradd agor a chau'r llygad – arwydd o gysgadrwydd – ac yn astudio nodweddion sy'n arwydd o ddylyfu gên. Os bydd lefel yr alcohol uwchlaw trothwy penodol – y terfyn cyfreithiol neu islaw hynny – bydd y system yn cloi'r gerbocs a wnaiff y car ddim symud. Caiff rhybudd llais 'yfed-a-gyrru' ei seinio drwy system lywio-drwy-loeren y car.

Cewch wybod rhagor yma

Arf newydd yn y frwydr yn erbyn gyrwyr diyswiriant

Amcangyfrif Cymdeithas Yswirwyr Prydain yw bod cyfanswm cost moduro diyswiriant ym Mhrydain dros hanner biliwn o bunnoedd y flwyddyn. Yn ystod 2006, cododd dros £350 miliwn gan ardoll Swyddfa Yswirwyr Moduron ar y modurwr gonest i dalu cost gyrru diyswiriant ym Mhrydain.

Yn ystod 2006, rhoddwyd gwybod i'r Swyddfa Yswirwyr Moduron am gyfanswm o 36,000 o hawliadau yn erbyn gyrwyr a oedd heb eu hyswirio a heb eu holrhain, sef gostyngiad o 4.7% ers y flwyddyn flaenorol.

Ym mis Ebrill eleni, lansiodd y Swyddfa Yswirwyr Moduron Linell Gymorth bwrpasol i'r Heddlu ei ffonio os byddan nhw'n stopio cerbyd am eu bod yn amau ei fod heb ei yswirio.

Bydd galwad gyflym i Linell Gymorth 0845 y Swyddfa Yswirwyr Moduron yn fodd i'r rhai sy'n ymdrin â'r alwad gysylltu â'r yswirwyr i ofyn a yw'r yswiriant yn ddilys. Caiff y swyddog ateb ymhen munudau i gadarnhau dilysrwydd yr yswiriant. Os nad oes modd cadarnhau dilysrwydd yr yswiriant, gall y swyddog benderfynu atafaelu'r cerbyd. Mae'r Swyddfa Yswirwyr Moduron wrthi'n cyflwyno'r Llinell Gymorth yn raddol i bob Heddlu ym Mhrydain.

I gael gwybod rhagor, ewch i www.mib.org.uk

Sedd chwyldroadol i blant

Mae'r sedd Aprica newydd i blentyn yn chwyldroadol am fod modd gosod baban ynddi ar wastad ei gefn neu ei chefn a diogelu pen a madruddyn cefn bregus y baban. Mae ymchwilwyr hefyd wedi sylwi y gall rhoi plentyn i eistedd ar i fyny arwain at gywasgu'r abdomen ac at ddiffyg ocsigen.

Mae gan y sedd, sy'n cydymffurfio â rheoliad Ewropeaidd cyfredol ECE R44-03, waelod sy'n fodd i'w throi 360 gradd. Gall y plentyn, felly, wynebu ymlaen neu yn ôl gan ei gwneud hi'n haws i'r rhieni gael y plentyn i mewn ac allan o'r cerbyd.

Cliciwch yma i gael rhagor o fanylion.

Cyngor ynghylch teclynnau llywio-drwy-loeren

O ddefnyddio offer llywio-drwy-loeren yn gelfydd, gall gyrwyr gynllunio'u teithiau ac osgoi petruso neu newid lôn ar y funud olaf; ond o'i ddefnyddio'n wael, gall dynnu sylw'r gyrrwr a chynyddu'r perygl o ddamwain.

Taflen **Using Sat Navs Safely** gan RoSPA yw'r adnodd delfrydol i reolwyr ei ddosbarthu i'w gyrwyr, ac i Awdurdodau Lleol ei gynnig i bobl yn eu tiriogaethau nhw. Bydd unrhyw gorff sy'n benderfynol o reoli'i risg ar y ffyrdd yn elwa o'i ddarllen.

Yn y daflen ceir arweiniad ynghylch sut mae lleoli'r teclyn mewn perthynas â'r bagiau aer a safle'r gyrrwr, yn ogystal â sawl 'gair i gall' i osgoi cael tynnu'ch sylw wrth yrru.
Ewch i'r Siop Ar-lein

Y wynebau y tu ôl i'r ffigurau



Mae'r Gymdeithas er Teithio'n Ddiogel ar Ffyrdd Rhyngwladol, ar y cyd â Sefydliad Iechyd y Byd, wedi datblygu'r llyfr "Faces behind the figures: voices of road traffic crash victims and their families", i roi wyneb dynol i'r ystadegau a geir mewn llawer adroddiad ar ddiogelwch ar y ffyrdd ledled y byd.

Mae'r storïau'n amlygu'r dinistr corfforol, seicolegol, emosiynol ac economaidd sy'n deillio o anafiadau ar y ffyrdd ac yn dyfnhau'n dealltwriaeth o'r dioddefaint enbyd yn sgil pob un o'r 1.2 miliwn o farwolaethau a'r 50 miliwn o anafiadau sy'n digwydd bob blwyddyn.

I gael gwybod rhagor, cliciwch yma..

Cysylltwch â'r Golygydd

Hawlfraint © 2007 gan RoSPA Cymru – Cedwir Pob Hawl.

Golygydd: Steve Baker, RoSPA
sbaker@rospa.com

02920 250 600